TLYSAU

YR HEN OESOEDD:

ſef, Gwaith Doethion y Cynfŷd.

yn cynwys

Rhan o Gywreinrwydd yr Hên Frutaniaid.

Gwedi eu caſglu allan o amryw ſgrifenadau, er mwyn difyrrwch i'r ſawl a'i chwenycho, ag er mwyn cadw coffadwriaeth am yr Hên Wyrda Doethion gynt, a ymdrechaſant mor galonnog dros e'u Hiaith a'u Gwlâd.

Nid wrth ei bîg y mae prynnu Cyffylog.

Well-ſounding Verſes are the Charms we uſe,
Heroick Thoughts and Virtue to infuſe.
Things of deep Senſe we may in Proſe unfold,
But they move more, in lofty Numbers told. *Mr. Waller.*

Argrâphwyd Ynghaer-Gybi ym Môn. 1735.

To the Engliſh Reader.

IT is intended to carry on this Collection of our Britiſh Antiquities, on the beſt Subjects handled by the Antients; and if proper encouragement is given, the choiceſt Deſcriptions Similes and Characters of things ſhall be Publiſhed *by Subſcription, Four Sheets for Sixpence, quarterly, with Engliſh explanatory Notes and Critical obſervations, and alſo a Diſſertation upon our Poetry and Language*; Things which very few Engliſh Readers have any Knowledge of, except our Antiquaries, our MSS having never been made publick, *and* in a great meaſure deſtroy'd by the Folly of ſome, *and* Envy of others.

The publiſhing of which, will clear up ſeveral diſputed Points in our Hiſtory *and* Antiquities, and preſerve the Memory of the Worthy Actions of thoſe Brave People, who maintain'd their Rights in *Britain*, for above two Thouſand Years.

Thoſe Gentlemen that are pleas'd to Encourage this Undertaking by their Subſcriptions, advice, or otherwiſe are deſired to communicate their Thoughts as ſoon as they can, Letters poſt paid.

At Drigolion Gwynedd.

PWY Bynnag na fedro roddi gair dâ i hŷn o orchwyl, harddach iddo na ddywedo ddim; canys pwy yn ei gôf a drawai 'r llâw a fai 'n cynnŷg cymmorth er gwaeled a fyddai? ag nid yw 'n chware teg enllibio gŵr dieithr yn ei gefn; Bêth a wyddoch na fedr arteb troſto ei hûn pei b'ai yn y fan. Os ffô' a fûn am fyned i Goſt fawr er mwyn llês i'm gwlâd (*tybygaſwn i,*) y peth lleiaf a

ellwch

ellwch yw esgus ôli gŵr *Gwirion*: pwy ŵyr flâs Pêth nes ei brofi? ——————— *W'ele gan hynny yn dyfod i ofyn eich nodded, forwyndod yr Argraphwasg cynta erioed yng-*WYNEDD; Os dâ tŷdd y pêth yn eich gólwg, chwi a ro'wch fywŷd iddo; os amgen, dychweled i'r llŵch o'r llê daeth: Llawenychâsai'ch hên Deidiau pe'i gwelsant y cyfrŷw bêth, nid oes ammau nad digio wnâ rhai o honoch chwî, dylâsai wn fyned i wlâd arall i ddechrau prophŵydo.

Er mwyn dênu 'r Cymru Seisnigaidd i ddarllen Cymrâeg, ag i graffu ar bêth na chlywsant erioed braidd sôn am dâno, [set, bod dŷsg a gwybodaeth gŷnt ynghymru,] rhoddais y cynwysiadau yn Saesonaeg; Na ddigiwch gan hynny wrth y cymmysg; Bernwch pan wyppoch y cwbl. Dâ lawn y gwn î mai Gwir a ddywaid yr Hên Wŷr, *a so Gwas Cyffredin byd, Hwyr y caiff ei dâl*: Canys dlêd ar bawb nid yw ddlêd ar Nêb. Etto chwî a êlwch er gwybod o hônof hyn, îmî dorri drwy Rêol Callîneb pch gweini Chwî.

Pei Edrychem ar fyrdra Oes Dŷn ag ar ei gwâgedd, nid oes néb mor gibddall na wêlai mai *Ffolineb yw Bydol ddoethineb.* a bydem fwy Carêdig o'r Gênedl sy'n dyfod ar ein Hôl.

Anifeiliaidd yw'r Dŷn a adawai Blant y Byd mewn Tywyllwch Lle gallai a Chanwyll ffyrlin yeu gôleuo; *Gwell gwae fi na gwae ni.* Yr Argraphwâsg [*medd y doethion*]yw Canwyll y Bŷd a Rhyddid Plant PRYDAIN, ******** Pam i minnau [a fûom wŷr Glewion gynt! os oes côel arnom] na cheisiwn bêth o'r Goleuni? Swllt ô Burs pob un o honoch tuagat y Pappir a'r Gwaith, a lenwai'r Wlad o Lyfrau Dâ ag a llawer o Fwynder a Diddânwch, ag a Gadwai'ch Enwau i Dragŵyddoldeb fal Cenedlordd Erail: Oni wnewch hyn Gwnewch a Fynnoch: DUW Gyda chwî, yw Dymûniad eich Ufuddat Wasnaethwr L. MORRIS.

The following Poem is a collection of moral sentences, taken it seems out of the verses of the Druids, *as partly appears by the Invocation before each ſtanza; and writ about* 350 *years ago by* Maclaf ap Llywarch. *Let the reader judge whether for morality it is exceeded by any profane writer.*

Caniad Eira mynydd.

Eira mynydd, blîn yw'r byd.
nid â traha i werŷd.
ni ŵyr neb ddamwain gôlyd.
ni pheru dim ond ennyd.
gnawd gorfod yn ôl adſŷd.
twyllo gwirion ſy ddybrŷd.
byth ni lŵydd un a gwŷd.
ar Dduw 'n unig rhown oglŷd.

Eira mynŷdd gwyn corn mŵg.
hôff gan leidr dywyllwg
gnawd galânas o hîr gîlwg
gwŷn ei fŷd a fo diddrwg
nid da y digwydd trythyllwg
hawdd cynnell diriaid i ddrŵg
ar benneth bai ſydd amlwg
coelia 'n llai 'r glûſt na 'r gôlwg.

Eira mynydd mawr ar rôs
gofal herwr ar hirnos
anaml llês o rodio 'r nôs
cyn credu myn yr achos
cam ffordd i ddieithr na ddangos
na wreigca ond o agos
nag anifeiliaid ar gefn rhôs
llywodraeth gwyr ſy anos.

Eira mynydd da yw 'r hêdd
cyn dechrau gwel y diwedd
mawr gofal dyn mewn blinedd
gnawd adfyd yn ol trawſedd.
gweddwa un pêth yw bŷnedd
oni chanlyn rhŷw rhinwedd.
i wrthwynebu aruthredd
yſtrŷw dyn ſŷ ryfedd.

Eira mynydd melus gwîn
pwy ŵyr trangc mâb wrth feithrin
ni chair parch ar gyflêſin
nid gwyrthſawr y cyffrêdin
nid rhy barch rhy gynêſin
nid parchus llywiawdr gwêrin.
am bêchod y cyffrêdin
y rhŷdd Duw annoeth Frênin.

To be continued in my next.

The moderate old way of curſing a woman.

Yn lle Carchar, bâr heb ôch,
(ich pryder
eich Priodi gaffoch,
yn lle Barn caeł mynd ar——och;
yn lle Crog. Beichiog y bôch.

The following Englyn *(compos'd of vowels.) was formerly publiſh'd, in* HOLMES's *Accademy of armory, (l.3.c.4.) as a challenge to all nations and tongues. It is a deſcription of a ſilk worm, containing the whole hiſtory of that animal, and is no weak argument of the ſmoothneſs and copiouſneſs of the britiſh tongue.*

n.b.[w & y] *are vowels in the welch.*

Englyn gorcheſtol i bryf ſidan

O'i wiw ŵy i weu e' â, a'i weuau
o'i ŵyau a weua;
e weua ei we aia',
a'i weuau yw leuau lâ.

Talieſſinus Ambroſius's *character of a compleat man.*

Taliefin a ddywaid mai dewiſa gŵr oedd fal hyn.
nſo 'n athro yn ei dŷ, yn oen yn ei ſtafell, yn fardd ar ei fwrdd, yn deoeth yn ei ddadl, yn walch ar heol, yn llew yn y *drin, yn EARCH yn ei welŷ.

Rhai o Drioedd Taliesin, *or the britiſh Triades; writ in the 6th cent.*

Tri dŷn mae Duw 'n i garu,
Cadarn cyſion, Dewr trugarog, a Hael di-edifar.

Tri pheth ni bîr beru;
ŷStên gwraig ſeddw, Lleſtr gwydr phyſygwr ffiom. a Hoelion coccys melinydd anghelfydd.

Tri pheth rid bawdd eu coelio;
Llŵ porthmon, Ad ſewid gorddercbwr, a gair Heliwr am ei gî.

Tri pheth a fâg jechyd i ddŷn;
digon o Dán fîs mawrth, digon o Gyſgu fîs mai, a digon o Fwyd fîs gorphenhaf.

Tri pheth ſy cyſtal a'r gorau;
Bara rhŷg rhag newŷn, Pais wen rhag anwŷd, a Mâb ordderch ar adwy.

Tri pheth a gaiff dŷn deddfol;
Digônedd Bydol, Hêddwch Corphorol, a Llawenydd Nêfol.

To be continued.

---

* *Battel.*

Of the Sound of Verſes.

BEAUTIES, *'tis ſaid*, are frequently found in Authors, which themſelves never dreamt of.

Mr. POPE in his Preface to the *Iliad*, enumerating *HOMER*'s Excellencies, next to his boundleſs invention, placeth the Sound of his Words, and makes it Peculiar to Him and *VIRGIL*, and ſays that no other Poet in any Language ever reach'd this Point of Art.

I think *Mr. COWLEY* brings his PINDAR in, for a ſhare of the ſame Character.

DAVID ap GWILYM our Welch Ovid [who flouriſh'd about the year 1400,] if I miſtake not layeth alſo ſome Claim to this Excellency; you muſt either allow of the Atomical Philoſophy, or that [copying after Nature by its own Light] he intended the following Poem ſhould ſound what it really is, *i.e.* a Deſcription of *Thunder & Lightning*: Tho' in his Love Poems and other ſoft Subjects, (*of which I have now by me, near a* 100,) he is as ſmooth, and glides as eaſy as *an Italian Song*. *Thoſe that are not over partial to the School Languages and proper Judges of* Ours, *let them compare this Poem, in its Sound and the Loftineſs of its Metaphors, with the beſt Paſſages of this kind in the above Authors, and don't doubt but they'll conclude this Boldneſs in the Compariſon, Excuſable, let* Homer's *Character be ever ſo ſacred.*

Cywŷdd y Daran.

MAE Gair i mî o Gariad,
Gael îs Dail gwelŷ o ſtâd,
a Çherdd gan Fronfraith a Chôg,
a Merch wenn i'm erchŵyniog;

mynnais im dâl am An-un
gael bod yn Gywely Bun,
Dan lŵyn mewn dien lanerch
a dail Mai rhwng dwylo merch;
inyn dŷn, pan oeddem ein dau
lawênaf, ddŷn ael winau,
Taro a wnaeth terwyn oedd!
trwſt Târan tros y tîroedd!
a ffrydiaw croŷw-lâw creulawn!
a phoeri mêllt yn ffrom iawn;
Gwylltio 'r forŵyn fwyn feinwen,
gwaſgu a ffô gwiſg ei phen,
Ffynnu 'n dêg ffoen ninnau 'n dau
Floes hon a ffôais innau.
Dûrun fflam y dâran ffrwch
dûg warwyſa 'n digriſwch:
Trwſt enbŷd! triſtyd i'r trŵyn,
trwſt mawr yn triſthâu norwyn!
Twrf a glŷw pob Tyrfa glau,
Tarw crŷg yn torri Creigiau,
Târan a ddûg Trinoedd ŷn,
trwſt Arfau tros y terfŷn;
TAN ami, a dŵr têw 'n ymladd,
Tân o lid Dŵr têw 'n ei ladd:
Clowais frŷ ciljais o fraw
Corlais udcorn y cûrlaw;
Bil fawr yn ymlefêrydd
O Gertweiniau 'r *Sygnau* ſŷdd,
Braw a ddeſgynnodd im bron!
Awrw Dêri o'r wybr dirion!
Gwŷllt yr awn a'm gwâllt ar ŵyr
Yn ruad Gwnn yr Awyr!

Gwiddon gôch yn gweiddi 'n gau,
gwrâch hagr dan gûro i chowgau.
Rhêgain garm rhyw gŵn gormes.
Rhûgl groen yn rhoi gwlâw a gwrês.
Torri Cerwyni crinion
a barai grî i'r ŵybr gron.
Cânu Trwmp yr ŵybr gwmpas
Cûro gwlaw ar bob craig lâs.
Crôglam yn dryllio creiglawr,
crechwen o'r ffurfafen fawr!
Trŵy ei Hûn y trawai Hwrdd,
tebŷg i gânu Tabwrdd.
Nid gwaeth wrth fyned iw gwâl
er Bremian o'r Wybr wamal,
Oni bae faint mewn braint Brâw,
Ofn deudd 'n a fai 'n dyddiaw.
Un dŷn nid oedd ond ni 'n dau
mewn man y Mûn a minnau:
Brefêrad yr Wŷbr Ferŷdd
a wnâeth i nî dorri dŷdd.
Fy Nŷn wenn ofni a wnâi
Awyr arw pan weryrai!
Drwg fu'r Daran ym Mannos
Dwyn dylif, ofni dŷn dlos:
Arw Fleiddiait cerfel îddi
am yſgar Meinwar a Mi.

Dáfŷdd ap Gwîlym *a'i Cant.*

Rhys Cain *the poet, who flouriſh'd about the year* 1560, *was by trade a Painter; amongſt other pieces, he had drawn one of our Saviour's paſſion, and being charg'd by a Calviniſt of promoting idolatry, he anſwer'd him in this moſt ſharp Epigram.*

Yr annuwiol ffôl a ffŷ, poen waeledd
pan welo fo IESU,
Llunied ef os gwell hynny,
Llún DIAWL ymhob lle 'n ei dŷ.

The nature of drunkeneſs.

NATUR pedwar Gwaed ſydd mewn
Dyn meddw,
nid amgen,
Gwaed Oen, Llew, Eppa, Hŵch,
Os gwaed Oen a ſydd trecha
ynddo, Tewi a ſyrthio a'i wddw
dano, a wnâ.

os gwaed llêw a ſydd trecha ynd
ſe ymladd a phawb nes y gortydd
neu i gortyddir.
Os gwaed Eppa ſydd trecha yndd
ymgeintâchwr cynhennus a tŷdd.
o'i gynhennau ſe ſyrth mewn gwra
wydd.
Os gwaed Hŵch
ſydd trecha ynddo, chwydu a chac
a chyſgu a wnâ.

An Englyn *upon a woman's kiſs.*

I Guſan Merch.

Sippiais Fedd gwiwfedd gyfion.
(go taſwe
gwefuſau meluſion!
Duw a twriodd diferion
Mêl-gatod hyd dafod hon!

The laſt Epigram was intended for the diverſion of Youth; what follows is a Caveat to pubeſcent Men.

HYN a gynnal ddyn yn Hir oeſawg ag yn lachus;
Os Cair bod yn ddiofal a chael Porthiant da; a Diôdŷdd o Lefrith neu wîn melus; Cyſgu mewn lle yrn oer, mewn gwely digaled: A Nofio mewn Dŵr oer Croŷw ychydig: A chaffael aroglau llyſiau da, a chael Enaint unwaith bob Mîs, a Chyſog Unwaith bob Tymor, a Gwraig unwaith bob Wythnos: a Bŵyd ddwywaith beunŷdd.

Llyma'r pethau a fyrha oes dyn ag ai heneiddia.

BWYTA ag Yfed gormodd; Llafurio 'n fynŷch; ſefyll neu eiſte 'n yr Haul, a gormodd Cerdded, a Chyſgu mewn gwelŷ caled, a Nofio mewn Heli, a Bwyta Bwyd ſych halld, ag yfed Llyn rhŷhen, a Gollwng gormod Gwaed, ag arfer o Ferched dros ſelur.

The Misfortunes of Wooers.

TRwſtneiddrŵydd Gruffydd ap Adda ap Dafydd.

Llawer o Bethau ſydd wrthwyneb i ſerchowgrwydd, fal y gwybu y Nwyfus Fardd Gr. ap Adda ap Dafydd, Oi boenedig orthrychiad ai drallawd trablin trafferthawg, i damweiniodd gerllaw byddar-ddorllŷs gwynfydedig Riain-ferch: yr oedd iddi gerdowdwrach fângerdd —— Yſgyrngwthr, yſgowlffwrch, glun uwchel, dal gûlgrêch, wâllt attw, Gaſgyl-boer, Engam grech, ddanheddgoll, Fron ddûledr, gryfein lliw; a dwylo-dielwig, Ewingras fyſedd, gîeulyd freichiau, migyrn gwlwm, A gwâl o fânus gaſgyl, a gwrthban garp, ag yn Rhincian dannedd, yn dwedyd drwy ei hûn, Benerthwch yn rhuthro peſychu yn Rhwygo Rhechain, yn traul trwy ei chwſg, yn gofyn pwy ai Cerdda y pryd hynny o nôs.

Yma y gwybu y poenedig Fardd mai gwir a ddwedai 'r Hên-wr, mai Tri amhorth ſerch y ſydd; Coſtog tom llafarddrwg, Dôr drom wichiedig, a gwrâch glwyfus ymgeingar, ag mewn gwely chweinllyd.

The following Poem, being hardly to be equall'd for Humour and Wit, requires a place here.

Cowŷdd y Chwannen,

Y Chwannen bâch union bûr
a neitia 'n chwimwth natur,
anhûnog ag ofnog ŵyd
a chwidr yn fynych ydwyd,
bŵrw a gwaſgar bŷr gyſgu
brêch iawn dorr, brycheuŷn du:
brathaiſt dann gyrrau brethyn
brathau dwys ſy'n britho dŷn!
dy gûſan lle'i doe gôſi
drŵg fantais yw d'oglais di.
Dy fwriad trwm dy frŷd drâw
dy hanes fŷdd dihûnaw.
Pypuren îs gobenydd.
prîd i fâb parod a fŷdd:
prŷ ſiwr ŵyd pryſur i oes,
pry gwael iawn, perygl einioes.
anodd yt fôd ond enyd
yn byw o anfodd y Bŷd!
cadwi orcheſt, Coed erchwyn,
cnithio a deffro y dŷn,
llawer dros ben ei henwi
o waed dŷn aeth ynod ti!
gwrando eiriau gwiriondeb
yn wir na 'nddiried i neb
ond i mi, yn anad môdd
waith gwirion, draw ath garodd,
dithau bydd genad weithian
droſoſi, di rus i fan,
ag annerch gwiw ferch gwae f'ais
ar gŵyrael wawr a gerais,
gwnâ 'n fwyn, i mî gymŵynas
o iawn gwych, am yr hen gas:
dôs frŷ i draed gwelŷ Gwen
yn dyner, at Lan Donen
tymiga fûn wrth hûnaw
gochel yn llwyrgêl i llaw.
i'w ffarti rhag anffortun
gwilia winedd byſedd Bun,
neidia yna pâir unoed
waith rhwydd i ben bawd i throed
oddiyno dwg addwyn daith
ar fwnwgl y wawr fwyniaith;
gochel a mogel er Mair!
rhêd yn waiſg 'r hyd wen eſgair
i ben i glin, binagl iach,
(ôd un-nos, nid yw wynach!
'rhyd norddwyd rhêd am urddas
hyd y fan nid ydyw fâs,
nid af er boll ar oſteg
i Enwi dim im Bûn dêg
e a ŵyr pawb enwi'r pîth
a'r ânwyd gida' r Eneth.
rhêd rhagod er mowrglod merch
i'r llwyn, ar warr y llannerch,
ag yno dôs, ar gynydd
i'r brŷn gwŷnn garbron y gwŷdd

rh

rhêd yn fuan dy wâneg
'n union rhwng ei dwyfron dêg
i fynu dôs, fenaid wen
ar wdduf, bun ireiddwen,
ar hyd i grudd dibrudd dwys
gweinia i'w chluſt yn gynwys.
pan fych o fewn pen y fun
antur na thorri 'chyntun:
yno anerch wen anwyl,
addef i hon wrâidd fy hŵyl
a dywaid wrth fûn dawel
y gwîr heb geiſio mor gêl
y mód beunydd, mûd boeni
a chrŷd hallt o'i chariad hi,
ag a gofal îm calon
o wîr ſerch heb ſentrio ſôn,
ag yn debyg nôd ebwch
o friw 'n driſt, i farw yn drŵch,
pâr i feinwar pur fonedd
na Laddo a gâro i gwêdd,
nâd i hon gaffel llonydd
nes cael Gwen is cîl y gwŷdd,
nâd dwyllo, monot allan
nes yna 'r ferch enwi'r fann,
a gwnaed meinwar drugârhedd,
er un mâb y gŵr a'n mêdd.

THOMAS PRYS, *Eſq; of* Plas Jolyn *in* Denbighſhire, *a Commander of Buccaneers on the Coaſt of* Spain *in* Queen Elizabeth's *time.* &c.

YSTORI DOCTOR Y BENDR(

De Medico qui Inſanos curabat.
Æſopi Fab. juxta finem.

BAGAD o Bobl (Trigolion Llanbeder Pont Stephen, Dinas ſreiniol yn Neheubarth Cymru, yn Dyſod adref o ffair Tal y Sarn Grîn y 29 o Awſt Diwaethaf) oeddynt yn chwedleua ynghylch gofal a thrafferth anfuddiol (neu 'n hytrach ffolineb digymmar) rhyw oferddynion afrâdus na arbedant ddim Côſt i fâgu a dŵyn i fynu 'n fwythus Gâd o ſtrelgwn bârus melldigedig er mwyn y Coeg ddifyrrwch o Hêla.

Nid heb achos ynte (ebr un o honynt a elwid *Gwalchmai*) y Clywais ddarfod i Frenin Pâbo o wlâd Fôn ynghwynedd, unwaith dori agos ar ei Draws wrth chwerthin am ben y Segurwyr hynny. Y lleill yn awyddûs, a chwenychâſant gael ychwaneg o hânes y chwedl a beraſai i'r gŵr Enwog hwnnw chwerthin ſelly.

Ebr Gwalchmai, Yn y wlâd honno 'roedd Phyſygwr nodedig (Rhemwth aſlêr o Garn ſais Coeſgam Anhymoraidd, mor ddibris am fywyd Dyn ag am chwannen) a elwid yn Gyffred

DOCT(

TOR Y BENDRO, Hwn a rai Arno wneuthur y Sawl a gid atto yn gyſtuddiedig gan y wyf hwnnw mewn hyn a hyn o amer yn holljach: Ei ffordd ef yn eu trin hwynt oedd fal hyn, yr oedd ganddo yn un pen i'w Dŷ 'ſtafell fawr helaeth, yn honno 'r oedd Trochlyn o ddwr budr drewedig ac ynghanol hwnnw y rhwymei ef yn ddiogel y rhai gwallcôfus wrth Boſt, yn noeth lumynîaid. Rhai hyd eu gliniau rhai hyd eu bogeiliau a rhai yn ddyfnach fyth yn ol grâdd Cynddaredd eu Pendro. Dim lluniaeth ni chaen odieithr tair Llwyaid o Gawl erfin, neu bottes gwyn bâch, unwaith mewn wyth awr a deugain, er mwyn oeri eu ſyrph gwreſog anyſtywallt: Ac yn dwr hwnnw y Caent ddiodde rhyniod newyn a drewi nes cwbl adferu iddynt eu Cof au Synwyr: Ymyſg eraill dygwyd atto et un GWION GWAG SIOL; hwn a roddes ef yn y pwll hyd hanner ei forddwyd; ag wedi bod yno yn darn fwydo dros bythefnos, fe a dechreuodd ddadbendroni, a dyfod atto ei hun, ac a ymbiliodd a'r Doctor am gennad i ddyfod allan o'r Pwll: ar ei ddymuniad Cafodd ei ryddhau o'i gyſtudd; nd tan ammod na byddei iddo fyd allan o'r ſtâfell; Ymfodlonodd yn bwyllog Jawn i wneuthur hynny dros rai Dyddiau.

Ymhen Ennyd gwedi hynny chwenychodd gael rhyddid i fyned i fynu ag i wared hyd yr holl dŷ; Canni attawyd hynny hefyd iddo trwy nad elai allan o'r Dryſau; a'r Cymdeithion eraill (y rhai oeddynt lawer o rifedi) yngwlŷch fyth yn y Carcharbwll; ond *Gwion* oedd yn wr Rhŷdd ag yn Rhŵydd ben waſtad, ag ymhob pêth yn ufudd i Reolau a Llywodraeth y Doctor.

Ond ar ryw Drô pan oedd e'n Sefyll gyd a'r hwyr wrth y drŵs (oblegid ni feiddie fynd allan rhag Cael ei ail drwytho 'n ddwyfach yn y Pwll ofnadwy) Fe ganfu ryw Wr ieuangc Llêd fonheddig yn Dyfod tuagatto ar Glamp o Geffyl, a Gwalch yn un Llâw, a phaſtwnffon hîr yn y llall, dan grôchfloeddio, gwichian a chwibiânu; a llu o hengwn Bytheiadcwn, Coſtowcwn, Yſbaengwn, Corgwn a mân ddrewgwn eraill ar e'i ôl; ac o hirbell ar ol y rhain, yr oedd tri o wyr traed, Cwŷdd Eurŷch a chrâchuchêlwr, wedi i ſwn y Corn er y boreu eu tynnu oddiwrth eu gwaith er a ellid iddynt, yn rhedeg am y Cynta, yn fawr eu chwŷs a'i traed trwy eu heſgidiau, i gael rhan o'r ysblêddach.

Galwodd

Galwodd *Gwion* y gŵr ieuangc atto, gan ſynnu 'n aruthr wrth yr ôlwg ryfeddol honno! [o ran nid oedd e' 'n cofio dim o'r pethau a welſai gynt cyn iddo amhwyllo] Pan neſhâodd y llall atto, Gwrando 'r glanddyn ebr 'ſe ag atteb imi Gweſtiwn neu ddau: Pa fwyſtfil ſtromwyllt ſydd genit yna 'n marchogaeth arno? Ac i ba bwrpas yr ydwyt yn ei gadw? March, ebr ynte ydyw, ag er mwyn y digriſwch rhagorol o HELWRIAETH yr hon ſydd un o'r pedair Camp ar Hugain yr wyf yn ei gadw; Aie o ddifri, ebr *Gwion*; A pha ſodd y gelwir y Têgan yna ſy 'n dy Law di? a pha ddeunydd yr wyt yn ei wneuthur o hôno? Gwalch ydyw, eb'r llall, Cymmwynaſcar iawn i ddal Pettris a Grug ieir, Coeſgochion a chrâchhwyaid. Hyh! ebr *Gwion*; ond pa beth yw'r Haid o greaduriaid bolweigion eraill yna ſy 'n dy ganlyn di, a rhês o fottymmau yn tyfu hyd eu Cefnau, au Hyſtlyſau 'n Swrn debyg i gŵyd o wîail, ag i ba beth y maent hwy 'n dda? Cŵn, ebr llall, ydynt o bob math ag o'r rhywogaith oreu ynghymru, wedi imi ſy hunan, drwy fawr gôſt a gofal, eu llithio 'n rhagorol i Olrhain Adar a phryfed gwyllion, trwy ddŵr a than, Gelldydd a choedydd, Anialwch a Dryſni. Wel'Dyma dri chwplw o Fytheiad o Lîn Goreugwn *Brochwel Yſcithrog* gynt T'wyſog *Powys*, heb eu Cymeiriaid yn y wlad at Geunach a chadno, Dwfrgi a phwlbart, Bronwen a Thwrch Daiar. Daccw ddau gwplws o ddaiargwn (o waed digymmyſc tu tâd tu fam) a ddaethant drwy berfedd y Cŵn goreu a fu 'rioed ar Hêlw Rhys ap Tewdwr mawr o ddeheubarth. Hen hendaid y milgi pella' Draw a gafodd fy nhaid î gan Orwyr i un o ŵyrion *Cadrod Hardd* ArgIwydd Talybolion yn Mon. Yr Adargi yma a ddanfonwyd i mi o *wlad yr Haf*, yn anrheg oddiwrth *Syr* **** Iſt, iſt, ebr *Gwion*, Digon bellach am ûchel àchau, bônedd a gwaedoliaeth dy Helgwn: Moes wybod, yn rhodd, pa faint a dâl yr adar ar Pryfed hynny yr wyt yn Ceiſio cynifer o bethau i'w Hela, pe bwrit Helwriaeth yr holl flwyddyn i'r unfan? Pwh! ebr' Heliwr, rhyw ychydig fatter, nis gwn i 'n union pa faint, a phan ddywedodd mai prin y cyrhaeddai 'r cwbwl Goron Arian; Gwae fy nghadach Ebr' llall, a pha faint y mae Cadwraeth y march y Gwalch a'r hôll Lumangwn gwanggcus yna yn ei goſtio iti? Dim llai

ebr

ebr ynte' na chant a hanner o bunneu, heblaw ymbell Bunt weithie am Ormes y Cŵn pan hiraethant (Druein!) am Dammaid amheuthun, ac yr elont yn gyttûn i wlédda ar ddefaid y Cym-'dogion. Ho, ho! ebr *Gwion*, mi ath glywaf di yn ymlefêrydd, y mae dy Gôrun wedi clwyfo 'n greulon: Y Cyfaill penchwîban, os Ceri dy hoedl attolwg dôs ymaith o'r Fangre hon yn gynta byth y gallech cyn Dyfod y Doctor adref: Oblegid os efe a'th ddeil di yma, gwae di dy Eni erioed; fe ath gyfrif di y Catffwl ynfyttaf heddyw ar wyneb y ddaiar, wedi 'r Bendro wibwrn dy Bendifâdu; a chorddi dy 'mennydd di yn Lasdwr. Oni ddiengi ar frŷs dyma lle bydd dy lettŷ; nid oes it obaith na chadwynir di 'n ddiatreg yn garcharor yn y Sybwll tomlŷd ffieiddiwnt sydd yma, Ymysc llawércedd o rai gwallcôsus a boenir ynddo eusys o âchos y clwyf cynhwynol hwnnw: ie Soddir di yno yn ddyfnach na hwynt ôll, rhwymir di yn ddidrugaredd *Hyd yr En* yn eigion y Ceubwll aflan.

Ond os dy dynged a fydd cael dy fŵrw i mewn (fal yr haeddit yn fwy na nêb) Cymmwys y gwelwn î, gan dy fod yn ddarn o ŵrbonheddig, i'r Doctor ganiadhau iti un ffafr arbenig uwchlaw dy Frodyr PEINDRO, sef Cael o honot gwmpeini Difyr dy Gyfarthgwn o'th amgylch yn mhwll y caethiwed: ac os mârw a wnei (fel y mae 'n debygol) Cyn dy fod o honot ith Jawn Hŵyl, nid Cyffur bychan yny bŷd a fŷdd iti gael y Cyfrŷw gymdeithion ffyddlon i gydbyngcio dy Farwnad, a llafar údo dy Glul pan fyddych yn trengu.

This excellent Paraphraſe is ſuppoſed by ſome to be a Performance of this Age; but as it imitates the Antients ſo cloſely in its Stile, I could not help placeing it amongſt their Works, until a proper Claim is made to it; and if, at laſt, it ſhould happen to be a modern Piece, its Elegancy will attone for my publiſhing it, and ſhould not be ſorry of being ſo pleaſantly deceiv'd daily.

GEIRIAU GWIR TALIESSIN.

NI bydd Llesteiriach y daith er Gwrando'r offêren.
ni bydd pringar yr Heiniar er Rhoddi Elûsen.
nid Câsach gan Dduw 'r ynfyd na 'r Cymmen.
nid Doethineb rhoi'r Nêt er Benthyg y * Bresen. * *yr amser presennol*
nid Edrych Angau pwy Deccaf ei Dalcen.
ni ŵyr Perchen Cnawd beth fydd ei † ddîen. † *Dibenydd.*
nid ffyddlon y dyn a ddalio Genfigen.
ni bydd Clodfawr nêb er rhoddi 'n aflawen.
nid Llawenach yr Enaid er Llenwi Blonhegen.
nid Caredig gan Grîst a fo' drŵg wrth Angen.

Ni ddigia 'r Drindod er Erchi Cyfiawder.
ni bydd Tylodach Duw er Rhoddi bob amser.
nid Cyfyngach Paradwys er a ddêl iddi o nifer.
nid eiff neb i'r Nêt er Bonedd na Dewrder.
ni chair y mawrdreth er meddyliau ofer.
i chadwo 'r ychydig ni fêdd ar Lawer.
i chair y melus heb oddef y chwerwder.
i chair Esgus ar fynydd *Olifer*
an fo pawb ei hûn yn dangos ei ffalster
Chrîst yn Barnu drwy ddolur a * Phryder. * *Gofal.*

This Author (so noted for his moral Poems *and* Satires*) was* Poet Laureat *to* Maelgwyn Gwynedd, *King of* Wales *about the year* 580, *who on account of the* Saxon *Troubles (being a Man much addicted to his pleasures, as appears by* Gildas *and* Taliessin's *Invectives) kept his Court at* Conwy, *where under the Shelter of those natural Fortifications the* British Alps, *he was pretty safe from their Inroads.*

It is surprizing, how for above 1100 *years the Dialect of the* Britains *of* North Wales *hath so kept its ground, that there is not as much Difference between* Ours *and* Taliesin's, *as between the present* English *and that of* Queen Elizabeth's *Reign.*

Y DIWEDDGLO.

WELE Gymru mwynion, hyd yma y Llafuriais er eich mŵyn Cyn gwybod o honof pa un ai'ch boddio a'i peidio a wnaf: anodd yw bodloni pob Cêg ag un mâth ar fwyd; mae rhai o honoch yn Jeuainge ag yn wrêfog, dâ gan rheini ddigrifwch a Llawênydd: Rhai'n Sobrddoeth Synhwyrol, gwell gan rheini gerdd ddifri dda. Rhai'n Gybyddion Porchellaidd, moeſwch i rheini ffordd i Lenwi eu Codau: Rhai o honoch yn Ferched ſeiſnigaidd yn chwannog i ſaethu Cyn annelu: Rhai'n hên wyr yn ofni Angau, Pam na buaſai mhappir yn Bregethau a gweddiau? Rhai [a'r rhan leiaf hefyd yſywaeth] yn wŷr a Gwrâgedd mwynion, Diduedd, yn Bobl Garêdig Oneſt, yn Ewyllyſgar i bawb gael rhan o'r Byd yn Gyſtal a hwythau, yn Caru eu Hiaith au Gwlâd, a choffadwriaeth am eu Teidiau au Gweithredoedd Ardderchog: Er mwyn y rheini [ag i rheini yn Unig] y Cymerais y boen hon arnaf; Pam ynte y bydd raid i nêb arall ſuro mo'i drŵyn ynghylch hyn o waelbeth; Digon i bawb Edrych ar ol ei Dylwyth ei hun.

Pris Argraphu yw 20 s. y Bappir len, neu, *Sheet*, a chael o honynt ynghylch 400, ar Bappir Rheſymol, ag yn ol hynny am ychwaneg rifedi: ond os chwenychir Cael Pappir da, bydd y pris yn chwanegu.

mŵyn
wnaf:
nch yn
Rhai 'n
'n Gy-
Rhai o
Rhai 'n
a gwe-
mwy-
el rhan
choff-
nwyn y
ynte y
Digon i

honynt
aneg ri-
negu.